



Rhif: 11

Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd

Pen-caer i Benbwchdy



ACM11:Pen-caer i Benbwchdy



Bae Carreg Onnen gyda goleudy Pen-caer



Penbwchdy o Garn Fawr

**Disgrifiad Cryno**

Darn byr o forlin garw ac anghysbell, sy'n cynnwys Pen-caer a'r ardal i'r de o Ben-caer. Ardal sydd â chlogwyni uchel iawn mewn mannau (140m ym Mhenbwchdy) ac ynysoedd creigiog a glannau'r mor. Mae llwyfandir arfordirol bugeiliol, gwledig a thonog yn gorwedd tu ôl i'r arfordir gyda'r brigiad amlwg yng Ngarn Fawr a'r fryngaer gysylltiedig. Anheddiad gwledig, gwasgarog iawn sy'n cynnwys ffermydd anghysbell. Mae'r traeth bron yn anghysbell ac felly Pen-caer a'i oleudy yw'r brif gyrchfan, yn rhannol ar gyfer gwyllo dolffiniaid. Cerdded llwybr yr arfordir, deifio a dringo yw'r gweithgareddau hamdden eraill.

**Nodweddion Allweddol**

- Morlin danheddog sy'n wynebu'r gorllewin gyda chlogwyni garw yn codi i 140m UDO a phentiroedd, gydag ynysigau a phantiadau yn torri mewn i'r graig yn siarp hwnt ac yma ac ynysoedd oddi ar y lan a staciau creigiog.
- O gopa'r clogwyni mae'r tir yn codi'n ysgafn i frigiadau folcanig creigiog, sydyn.
- Morlin agored sy'n wynebu'r gorllewin gyda phatrwm difrifol o darfu ar y tonnau.
- Mae gorchudd y tir yn cynnwys gweundir arfordirol a rhedyn gyda phorfa yn cael ei gau i mewn a chloddiau a ffiniau cae o waliau carreg ac ambell goeden. Mae bywyd gwylt y môr yn cynnwys dolffiniaid a morloi.
- Mae gan yr ardal lawer o olion cynhanesyddol gan gynnwys bryngaerau ar Garn Fawr a chaerau pentir.
- Yn bennaf, mae'r anheddiad yn ffermydd gwasgarog iawn a gysylltir gan lonydd troellog, cul gyda diffyg llygredd golau yn gyffredinol.
- Mae'r ardal yn teimlo'n anghysbell, yn naturiol ac yn agored ac mae'n bosib gweld golygfeydd eang o'r arfordir a golygfeydd panoramig o Garn Fawr.
- Gan fod y traeth mor anhygyrch, Pen-caer a'i oleudy yw'r prif atyniad i ymwelwyr.
- Mae Llwybr yr Arfordir yn ymestyn o amgylch copa'r clogwyni ac maen nhw'n dringo o amgylch Pwll Deri.
- Defnyddir y môr ar gyfer dal pysgod mewn potiau a deifio ac mae cwch fferi Abergwaun yn pasio heibio gerllaw.
- Golygfeydd hir tuag at y gorllewin o'r arfordir, a golygfeydd panoramig o Garn Fawr.

**Nodweddion Ffisegol**

Mae'r morlin hwn yn glogwyni uchel, garw, danheddog sy'n wynebu'r gorllewin, sy'n codi o 40m i'r gogledd i 90m ac yna 140m o amgylch Penbwchdy. Mae'r tirffurf yn codi ymhellach tua'r tir i'r brigiad yn Garn Fawr (211m UDO) ac mae'n cynnwys folcanigau sylfaenol Ordoicaidd (gabroau) sy'n taro dwyrain-gorllewin a mewnwthiadau ymhlith sialau du (Grŵp Folcanig Abergwaun). Mae'r clogwyni serth yn disgyn i lannau creigiog, gyda thafodau o greigiau yn adeiladu allan o'r arfordir ac ynysigau creigiog bach a'r ynys mwy o faint yn Ynys Meicel ble mae lleoliad goleudy Pen-caer. Mae'r ardaloedd rhynglanw yn lannau creigiog agored, gyda thraethau bach o dywod neu raean mewn cildraethau cul. Mae'r arfordir yn agored i erydiad y gwynt a'r tonnau trwy sgrafelliad a symudiadau hydrolig.

Mae llawr y môr, sydd yn fas i gymedrol, ble mae'r dilyniant folcanig Ordoicaidd wedi ei orchuddio gan glymfaen, ar oledd oddi ar y lan ar ongl isel i serth (<1° ->10°). Mae'r moroedd yn agored i bwysau uchel gan y gwynt a'r tonnau. Mae cerhyntau llanwol yn dilyn tuedd gogledd ddwyrain -de orllewin y morlin, ac mae yna ddyfroedd garw. Mae egrau'n ffurfio oddi ar Ben-caer ar lifau sy'n symud tua'r dwyrain a'r gorllewin. Mae yna wrth-drolif orllewinol ar y llif dwyreiniol rhwng Pen-caer a Phenbrwsh. Mae'r llif llanwol yn <2.5 milltir fôr.

Daw'r arfordir o dan ACA Tyddewi, mae wedi ei ddynodi fel SoDdGA Pen-caer i Lechdafad a hefyd wedi ei nodi fel ardal sy'n bwysig ar gyfer adar - Clogwyni Sir Benfro. Yn aml, gweler morloi yn mwynhau ar ochr ddeheuol Carreg Onnen. Mae'r ardal yn lle da i wyllo bywyd gwylt.

Mae'r cynefinoedd yn cynnwys clogwyni morwrol, glaswelltir, gweundir a glannau creigiog. Mae ynysigau creigiog yn cynnal adar y môr sy'n bridio. Mae rhywogaethau pwysig yn cynnwys morloi llwyd, yr hebog tramor a'r frân goesgoch.

O amgylch ymylon uchaf y clogwyni môr ac ar Garn Fawr mae yna redyn a llystyfiant brithwaith gweundir lled-naturiol. Porfa yw'r gefnfro yn bennaf, gyda pheth tir â'r. Yn gyffredinol, mae ffiniau'r cae yn gloddiau isel sy'n llawn prysg neu'n ffiniau cae o waliau cerrig.

### Dylanwadau diwylliannol

Mae yna nifer o gaerau arfordirol cynhanesyddol yma. Mae'r goleudy'n pwysleisio'r cysylltiadau at lôn cychod Môr Iwerydd a'r angen i ddiogelu cychod sy'n gadael Abergwaun ac yn mynd i mewn i Abergwaun.

Mae bryngaer mawr Garn Fawr, Heneb Gofrestredig (PE065) ar frigiad creigiog amlwg ac yn dominyddu pob ffordd o nesau ati. Mae cyfres gymhleth o fanciau caregog a rhagfuriau wedi eu ffurfio o sgrî rhydd, yn dyst i'w hanes hir a chymhleth. Mae Dinas Mawr yn gaer bentir gerllaw (SAM - PE075). Mae Garn Fechan yn gaer lai gerllaw (SAM - 471).

Mae henebion cofrestredig yn cynnwys:

- PE029 (caer bentir): cymuned: Llanrhian
- PE036 (beddrod siambr): cymuned: Mathri
- PE038 (bryngaer): cymuned: Mathri
- PE065 (bryngaer Garn Fawr): cymuned: Pen-caer
- PE075 (caer bentir Dinas Mawr): cymuned: Pen-caer
- PE376 (melin): cymuned: Llanrhian
- PE382 (adeiladau diwydiannol): cymuned: Llanrhian
- PE391 (caer bentir): cymuned: Tyddewi
- PE392 (caer bentir): cymuned: Tyddewi
- PE393 (caer bentir): cymuned: Mathri
- PE471 (bryngaer Garn Fechan): cymuned: Pen-caer
- PE530 (gorsaf radar): cymuned: Pen-caer
- PE542 (caer bentir): cymuned: Pen-caer
- PE549 (caer bentir): cymuned: Llanrhian

Mae'r ardal hon yn gorwedd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Pen Caer: Garn Fawr a Phen-caer. Mae Garn Fawr yn nodedig fel un o'r bryngaerau Prydeinig cyntaf i gael arolwg archeolegol, gan Edward Llwyd tua 1700.

Mae yna ddau longdrylliad wedi eu nodi yn yr ardal - Dan Beard, sef cwch o America, wrth droed y clogwyni ym Mhenbwchdy a fwy na thebyg y Calberga o Ganada oddi ar March Mawr.

Cysylltir yr artist John Piper gyda'r ardal hon, ac yntau wedi byw mewn bwthyn ger Garn Fawr. Peintiodd yr arfordir, gan gynnwys Garn Fawr, a'r môr. Mae yna deyrnged i Dewi Emrys, awdur y gerdd 'Pwll Deri' ym Mhwll Deri.

Mae'r maes parcio ym Mhen-caer yn gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr, ac mae pobl yn dod yma i wylïo adar, morfilod a morloi ymhlith pethau eraill. Mae yna faes parcio a golygfan i'r gorllewin o Garn Fawr, ar Lwybr yr Arfordir, a maes parcio i'r dwyrain. Gellir mynd at y ddau ar hyd heolydd troellog, cul yn unig. Ar wahân i'r ddau bwynt yma, mae'r traethlin yn weddol anhygyrch, er bod yna lwybr i lawr i Bwll Deri. Maen nhw'n dringo clogwyni rhwng Pwll Deri a Phenbwchdy. Mae yna ddau safle deifio poblogaidd - ychydig i'r gogledd o ynysig Pen Bach ac o amgylch Ynys Melyn. Mae'n ddarn poblogaidd, garw o arfordir ar gyfer cerdded ac mae gan Garn Fawr olygfeydd panoramig.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydau wedi eu gosod, dal corgimwch, cimwch a chrancod mewn potiau ac mae yna bosibilrwydd ar gyfer mân-dreillio estyllod. Mae llwybr mordeithio arfordirol yn cysylltu Abergwaun at Aberdaugleddau a phwyntiau tua'r de a hefyd draw at Iwerddon. Mae Bae Carreg Onnen yn gallu cynnig amddiffyniad ac angorfa i gychod hwylio mewn gwyntoedd dwyreiniol. [Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.](#)

Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

Dyma forwedd fawr a garw, a'i ffocws yw golygfeydd o'r môr gyda chymeriad agored a naws cryf am le. Mae gan y clogwyni sy'n fertigol neu ar oledd serth ymddangosiad garw ac onglog, ac maen nhw'n ddramatig iawn, yn enwedig o amgylch Penbwchdy, gydag ynnysoedd ac ynysigau bach cysylltiedig oddi ar y lan. Mae'r ymyl arfordirol yn unedig iawn gyda chefnid o dirwedd fugeiliol, di-goed ar raddfa fach yn codi i frigiad mawreddog Garn Fawr. Wrth deithio o lwerddon, gellir gweld Garn Fawr ymhell cyn goleudy Pen-caer.

Er ei fod yn anghysbell ac yn heddychlon, oherwydd y gwyntoedd cryfion mae'r morlin hwn yn gallu bod yn wyllt ac yn agored, yn enwedig i wyntoedd gorllewinol. Mae yna ddiffyg llygredd golau yn gyffredinol.

Mae'n bosib gweld golygfeydd hir i'r gorllewin o sawl pwynt ar hyd y llwybr arfordirol, mor bell â Charn Llidi ar ddiwrnod clir, gyda llawer o ymwelwyr yn mwynhau golygfeydd o'r môr ac yn gwylio am forloi, adar a morfilod o'r maes parcio wrth y goleudy. Mae'r rheiny sy'n dringo copa'r brynau yn cael golygfeydd panoramig i'r de yn ogystal â'r gogledd.

#### Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ar ffurf llefydd anghysbell i gerdded a gwerthfawrogi natur, at dreftadaeth naturiol ar ffurf y morlin garw, heb ei ddifetha ac at wasanaethau ysbrydol mewn perthynas a'r ymdeimlad o ofod a chysylltiad â natur.

#### Rhesymau dros newid

Crynodeb	Rhesymau allweddol dros newid						
	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Gwasgedd ymwelwyr	Defnydd morol - masnacho La physgota	Ynni'r tir mawr neu fwrnau	Gwasgedd datblygiad	Newidiadau rheoli tir	Defnydd MOD
Erydiad araf clogwyni arfordirol caled, fwy yng nghefn y baeau. Mae cynllun rheoli'r traethlin yn dweud 'gwneud dim byd'. Mae Pen-caer fel atyniad i ymwelwyr yn arwain at dagfeydd a threulio ar lonydd bach sy'n rhedeg trwy'r ardal a'r maes parcio ar adegau.	<b>Rhinweddau Arbennig</b>						
Treulio ac erydu llwybr yr Arfordir, meysydd parcio cysylltiedig a'r llwyr i fyny at Garn Fawr.	Ysblander yr Arfordir						
Pwysau potensial ar gyfer llety gwyliau a chyfleusterau ymwelwyr yn y pentrefi.	Ynnysoedd						
Gostwng rheolaeth amaethyddol/pori yn arwain at golli porfa, cynyddu ardaloedd o brysg a rhedyn, a llai o reolaeth ar gyfer cloddiau, sy'n arwain at newid cymeriad.	Amrywiaeth y Tirlun						
<a href="#">Gall caniatáu trwyddedau olew a nwy arwain at bwysau i ddatblygu yn y dyfodol.</a>	Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch						
	Daeareg Amrywiol						
	Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth						
	Archeoleg Gyfoethog						
	Cymeriad Anheddiad Nodedig						
	Treftadaeth Ddiwylliannol						
	Mynediad i'r Parc						
	Lle i Anadlu						
	Allwedd						Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig
<b>Sensitifeddau allweddol</b>							
Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd				Ffactorau sy'n tynnu wrth sensitifrwydd			

<p>Cymeriad garw, anghysbell a naturiol y morlin, gydag anheddiad yn wasgarog.</p> <p>Cymeriad bugeiliol, gwledig y gefnfro, gyda brigiadau creigiog a lonydd troellog, cul.</p> <p>Golygfeydd eang tua'r gorllewin o'r arfordir a Garn Fawr.</p> <p>Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif.</p> <p>Diffyg llygredd golau yn gyffredinol.</p>	<p>Maes Parcio ar Ben-caer.</p> <p>Cychod fferi'n pasio heibio.</p>
---	---